

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL

13 MAI 2019

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy, Gorllewin Heol Caer, Queensferry, Glannau Dyfrdwy, Sir Y Fflint CH5 1SA Dydd Llun, 13 Mai 2019

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Dave Mackie (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Sean Bibby, Geoff Collett, Ian Dunbar, Paul Johnson, Tudor Jones, Brian Lloyd, Mike Reece, Ralph Small, Paul Shotton, Andy Williams, a David Wisinger

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Marion Bateman

ARSYLWI: Y Cynghorydd Christine Jones

CYFRANWYR: Y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol ac Asedau, y Cynghorydd Dave Hughes, Aelod Cabinet Tai, Prif Weithredwr a Phrif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant)

Roedd Mike Welch, Rheolwr Gyfarwyddwr a Neil Williams, Ysgrifennydd y Cwmni, Hamdden a Llyfrgelloedd Aura yn bresennol ar gyfer eitem 7. Roedd Rob Lawton, Rheolwr Gweithrediadau, a Steve Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr, Arlwyo a Glanhau NEWydd Cyfyngedig, yn bresennol ar gyfer eitem 8.

HEFYD YN BRESENNOL: Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog Gwasanaethau Democraidd

1. PENODI CADEIRYDD

Bu i'r Hwylusydd Trosolwg a Chraffu atgoffa'r Pwyllgor bod y Cyngor wedi penderfynu yn y Cyfarfod Blyneddol mai'r grŵp Cynghrair Annibynnol ddylai enwebu Cadeirydd y Pwyllgor. Roedd y grŵp wedi enwebu'r Cynghorydd Dave Mackie. Ar ôl cynnal pleidlais, cadarnhawyd yr enwebiad.

PENDERFYNWYD:

Penodi'r Cynghorydd Dave Mackie fel Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor.

(Cadeiriodd y Cynghorydd Mackie weddill y cyfarfod)

2. PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd. Enwebwyd y Cynghorydd Geoff Collett gan y Cynghorydd Paul Shotton, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd David Wisinger. Ar ôl cynnal pleidlais, cadarnhawyd yr enwebiad. Ni chafwyd enwebiadau pellach.

PENDERFYNWYD:

Penodi'r Cynghorydd Geoff Collett yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor.

3. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cynghorydd Tudor Jones gysylltiad personol a rhagfarnus â'r eitemau canlynol:

Eitem 7: Adolygiad Cynnydd Hamdden a Llyfrgelloedd Aura

Eitem 8: Adolygiad Cynnydd Arlwy a Glanhau NEWydd

4. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2019.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd David Wisinger a'i eilio gan y Cynghorydd Mike Reece.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

5. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol er mwyn ei hystyried. Tynnodd sylw at yr eitemau a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor ar 1 Gorffennaf 2019 ac atgoffodd yr Aelodau, yn dilyn awgrym yn y cyfarfod diwethaf, y cytunwyd y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy.

Cyfeiriodd yr Hwylusydd at yr eitem ar Bwll Nofio Cei Connah - Adroddiad Cynnydd Canol Blwyddyn Cambrian Aquatics 2018/19. Eglurodd y penderfynwyd trefnu cyfarfod gyda grŵp craidd o Aelodau a chynrychiolwyr Cambrian Aquatics ddiwedd mis Mai ac adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor.

Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylid ystyried yr eitemau canlynol yn ystod cyfarfodydd i ddod oherwydd y posibilrwydd o Fodelau Darparu Amgen / trefniadau cydweithio newydd.

- Theatr Clwyd
- Gofal Cymdeithasol
- Gwasanaethau Stryd a'r Gwasanaeth Masnachol Tai
- TCC – Cydweithio gyda Chyngor Wreccsam

PENDERFYNWYD:

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y'i cyflwynwyd; a

- (b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd Trosolwg a Chraffu, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

6. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD:

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

7. ADOLYGIAD CYNNYDD AURA

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i alluoga'r Pwyllgor adolygu cynnydd Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyfyngedig ers ei sefydlu fis Medi 2017. Darparodd y Prif Weithredwr wybodaeth gefndir a chyd-destun a gwahoddodd Mike Welch, Rheolwr Gyfarwyddwr, a Neil Williams, Ysgrifennydd y Cwmni, i adrodd ar berfformiad Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyfyngedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2018/19), a'r Cynllun Busnes a'r rhagamcaniadau ariannol ar gyfer 2019/20.

Rhoddodd y Rheolwr Gyfarwyddwr ac Ysgrifennydd y Cwmni gyflwyniad a oedd yn ymdrin â'r prif bwyntiau:

- Diweddariad Gweithrediaeth Aura
- Canolfan Hamdden yr Wyddgrug
- Pafiliwn Jade Jones
- Llyfrgelloedd
- Perfformiad Ariannol 2018/19
- Cyfarfod Blynyddol
- Cynllun Busnes Aura 2019/23

Siaradodd y Cyngorydd Tudor Jones am y gwerth a'r gwasanaeth ardderchog a ddarperir gan y Gwasanaeth Llyfrgell Teithiol i gymunedau a llongyfarchodd y Rheolwr Gyfarwyddwr a'i dîm am y gwelliannau i'r gwasanaethau.

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau am gyllid, polisi cyflogau, Cyflog Byw Cenedlaethol, pensiynau, recriwtio a chadw staff, marchnata, trefniadau llywodraethu a meysydd parcio. Gofynnodd y Cyngorwyr Paul Shotton ac Ian Dunbar am diweddariad ar Neuadd Chwaraeon Cei Connah.

Yn ystod y drafodaeth dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor yn parhau i feithrin perthynas agos a rhagweithiol gyda Bwrdd a Thîm Rheoli Aura a bod Aura yn dda iawn am gynnwys y Cyngor yn ei benderfyniadau busnes. Dywedodd y byddai'r Cyngor yn parhau i chwarae rhan lawn wrth gefnogi'r sefydliad i gynnal y perfformiad yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Llongyfarchodd yr Aelodau'r Rheolwr Gyfarwyddwr a'i dîm ar y cynnydd a'r cyflawniadau gan gyfeirio at berfformiad llywyddiannus y cwmni.

Diolchodd y Cadeirydd i Mike Welch a Neil Williams am eu cyflwyniad ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

Gofynnodd y Cynghorydd Tudor Jones am sicrhau bod mecanweithiau cefnogi ar gael ar gyfer Gwasanaethau Model Darparu Amgen o fewn y sir er mwyn sicrhau eu llwyddiant parhaus.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd David Wisinger a'u heilio wedi hynny.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cydnabod cynnydd Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyfyngedig ers ei sefydlu fis Medi 2017 ac yn canmol ei berfformiad; a
- (b) Nodi'r heriau ynghlwm wrth gynnal perfformiad y busnes;
- (c) Bod y Cyngor ac Aura yn trafod dyfodol Canolfan Hamdden Cei Connah gydag Aelodau Lleol;
- (d) Darparu cefnogaeth i Fodelau Darparu Amgen o fewn y sir er mwyn sicrhau eu llwyddiant parhaus.

8. ADOLYGIAD CYNNYDD ARLWYO A GLANHAU NEWYDD

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) adroddiad i alluogi'r Pwyllgor adolygu cynnydd NEWydd ers ei sefydlu yn 2017. Darparodd y Prif Swyddog wybodaeth gefndir a gwahodd Rob Lawton, Rheolwr Gweithrediadau, a Steve Wyn Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr, i adrodd ar ddatblygiad y trawsnewid ac ar Gynllun Busnes NEWydd ar gyfer 2019/20-2021/22.

Rhoddodd y Rheolwr Gyfarwyddwr gyflwyniad a oedd yn ymdrin â'r prif bwyntiau:

- Trosolwg
- Perfformiad ariannol
- Blwyddyn 2
- Cynllun Busnes 2019/20
- Risgiau a mesurau lliniaru

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau am brydau ysgol, mentrau bwyta'n iach a lles, gwasanaethau glanhau, recriwtio a chadw staff, polisi cyflogau, pensiynau a threfniadau llywodraethu. Gofynnodd yr Aelodau hefyd gwestiynau am y cyfleoedd sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau i'r sector preifat.

Yn ystod y drafodaeth dywedodd y Prif Swyddog fod y Cyngor yn parhau i feithrin perthynas agos a rhagweithiol gydag Arlwy a Glanhau NEWydd Cyfyngedig a bod y cwmni yn dda iawn am gynnwys y Cyngor yn ei benderfyniadau busnes. Dywedodd y byddai'r Cyngor yn parhau i chwarae rhan

lawn wrth gefnogi Arlwy a Glanhau NEWydd Cyfyngedig i gynnal y perfformiad yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Diolchodd y Cadeirydd i Steve Jones a Rob Lawton am eu cyflwyniad ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd David Wisinger a'u heilio wedi hynny.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cydnabod cynnydd Arlwy a Glanhau NEWydd Cyfyngedig ers ei sefydlu fis Mai 2017 ac yn canmol ei berfformiad; a
- (b) Nodi'r heriau ynghlwm wrth gynnal perfformiad y busnes;

9. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.55 pm)

.....
Cadeirydd